| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gall dysgwyr ddangos bod ganddynt ddealltwriaeth fwy manwl o ddigwyddiadau allweddol. | | |
| • rôl Isabella o Castile a Ferdinand o Aragon wrth gefnogi mordeithiau darganfod ac agweddau tuag at Bobloedd Frodorol a Chytundeb Tordesillas, 1494. | Enghreifftiau o fordeithiau darganfod allweddol (o Sbaen) wedi'u cefnogi gan y brenhinoedd.<br><br>Y driniaeth a gafodd pobloedd y Caribî.<br><br>Y driniaeth a gafodd Pobloedd Frodorol Canolbarth America.<br><br>Dealltwriaeth o'r cytundeb rhwng Sbaen a Phortiwgal yng Nghytundeb Tordesillas. | **Gweithgaredd:**<br>Lluniwch fat bwrdd i amlinellu'r mordeithiau darganfod, yr agweddau tuag at y Bobloedd Frodorol a sut cawson nhw eu trin a Chytundeb Tordesillas, 1494.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall rôl y Sbaenwyr yn y Caribî a'r cyfarfyddiadau cyntaf â Phobloedd Frodorol De America a rôl brenhinoedd Sbaen yn cefnogi hyn.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Lluniwch grynodeb o effeithiau'r digwyddiadau hyn.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr grynhoi effaith y cyfarfodydd cyntaf hyn ar ehangiad trosfeddiant Sbaen. | **Llyfr(au):**<br>K. Jarvis ac R. Woff, *Aztecs and the Spanish Conquest 15-19-1535* (2022)<br><br>**Gwefan(nau):**<br>The Spanish Conquest of the Americas<br><br>**Erthygl(au):**<br>Who were Ferdinand and Isabella: The husband and wife who transformed medieval Spain? - History Skills<br><br>Treaty of Tordesillas - World History Encyclopaedia<br><br>**Fideo(s):**<br>Columbus, Vasco da Gama, and Zheng He - 15th Century Mariners: Crash Course World History | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 2.3.1 Sbaen yn ehangu i'r "Byd Newydd" | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • y rhesymau dros ehangiad Sbaen i wledydd tramor, gan gynnwys:<br>• newidiadau gwleidyddol, economaidd a chrefyddol<br>• datblygiadau technegol ym maes mordeithio a chreu mapiau. | Pam yr oedd Sbaen am gael mwy o dir dramor.<br><br>Ffactorau gwleidyddol, economaidd a chrefyddol a arweiniodd at yr ehangiad.<br><br>Datblygiadau mewn mordeithio a chreu mapiau i Sbaen. | **Gweithgaredd:**<br>Gan weithio mewn grwpiau bach, archwiliwch weithgaredd carwsél/marchnad i grynhoi gwybodaeth allweddol am y rhesymau dros ehangiad Sbaen o dan yr is-benawdau a nodwyd sef newidiadau gwleidyddol, economaidd a chrefyddol.<br><br>Rhowch grynodeb o'r datblygiadau technegol ym maes mordeithio a chreu mapiau.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gal dysgwyr ddangos eu bod yn deall y rhesymau dros ehangiad Sbaen dramor a'r effaith a gafodd hyn.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Dadansoddwch arwyddocâd newidiadau gwleidyddol, economaidd a chrefyddol a datblygiadau technegol ym maes mordeithio a chreu mapiau.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall sut creodd y newidiadau a'r datblygiadau hyn sylfaen ar gyfer Ymerodraeth Sbaen. | **Llyfr(au):**<br>K. Jarvis ac R. Woff, *Aztecs and the Spanish Conquest 15-19-1535* (2022)<br><br>**Gwefan(nau):**<br>The Spanish Conquest of the Americas<br><br>**Erthygl(au):**<br>Spanish colonisation: Overview of the Spanish Empire's expansion and impact - ourhistory.org.uk<br><br>3.1: Age of Exploration - Humanities LibreTexts<br><br>**Fideo(s):**<br>How The Spanish Empire Became The World's First Superpower | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • concwest Sbaen o'r Caribî, gan gynnwys:<br>• pobloedd y Caribî - ecsbloetio'r bobl a'r tir<br>• y rhesymau dros ehangiad Sbaen i México. | Y Taino a'r Caribs (pobloedd frodorol y Caribî).<br><br>Caethiwo'r Pobloedd Frodorol i ffermio'r tir.<br><br>Prinder aur (a nodwyd erbyn 1519) yn y Caribî ac apêl canolbarth America. | **Gweithgaredd:**<br>Gweithgaredd cyflwyno gwaith grŵp. Mae pob grŵp yn cael thema wahanol i ymchwilio iddi mewn perthynas â choncwest Sbaen o'r Caribî, er enghraifft, y driniaeth o Bobloedd Frodorol, ac yna byddant yn bwydo'n ôl i weddill y dosbarth. Dylai gweddill y dosbarth gymryd nodiadau yn ystod y cyflwyniadau.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall y ffordd y trosfeddiannodd Sbaen y Caribî a defnyddio'r bobl a'r tir er ei fudd ei hun. Gall dysgwyr hefyd ddangos eu bod yn deall pam y symudodd Sbaen i Ganolbarth America, sef México.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Gellir rhoi cwestiynau her i ddysgwyr i'w hannog i feddwl am resymau eraill dros ehangiad Sbaen e.e. pam y byddai cenhadon Catholig Rufeinig yn cael eu denu i'r Caribî?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr archwilio rhesymau eraill dros goncwest Sbaen e.e. crefydd. | **Llyfr(au):**<br>K. Jarvis ac R. Woff, *Aztecs and the Spanish Conquest 15-19-1535* (2022)<br><br>**Gwefan(nau):**<br>The Spanish Conquest of the Americas<br><br>**Erthygl(au):**<br>Spanish Caribbean, 1492–1550 - Oxford Research Encyclopaedia of Latin American History | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 2.3.2 Gwareiddiad yr Asteciaid | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • prif nodweddion gwareiddiad yr Asteciaid, gan gynnwys:<br>  • dulliau rheoli, credoau, teyrngedau, codecsau ac aberth<br>  • cyfoeth, amaethyddiaeth, masnach a rhyfela. | Deall strwythur cymdeithas yr Asteciaid, credoau crefyddol mewn Duwiau a mythau hynafaidd, teyrngedau (trethi) ac aberthau dynol.<br><br>Dosbarthu cyfoeth, rôl masnach, rôl amaethyddiaeth a'r rhesymau dros ryfela a dulliau rhyfela. | **Gweithgaredd:**<br>Dylai dysgwyr gwblhau ymholiad annibynnol, yn seiliedig ar ddogfennau, gan ddefnyddio ffynonellau ac erthyglau cyfoes i ymchwilio i'r nodweddion a nodwyd o wareiddiad yr Asteciaid.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall prif nodweddion gwareiddiad yr Asteciaid.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Aseswch ddibynadwyedd y deunyddiau ffynhonnell a ddewiswyd ar gyfer yr ymholiad drwy ddadansoddi eu cryfderau a'u cyfyngiadau mewn modd beirniadol.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn gallu llunio casgliadau cryf gan ddefnyddio ymholiad ar sail dogfennaeth. | **Llyfr(au):**<br>K. Jarvis ac R. Woff, *Aztecs and the Spanish Conquest 15-19-1535* (2022)<br><br>**Gwefan(nau):**<br>The Spanish Conquest of the Americas<br><br>Governance of the Aztec Empire - History<br><br>Crime and Punishment in the Aztec Empire \| History Hit<br><br>Aztec religion \| Practices, Beliefs, & gods \| Britannica<br><br>The Aztec Empire: Society, Politics, Religion, and Agriculture - History | 3 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Exploring the Rich History of the Aztec Civilization | |
| • pwysigrwydd Tenochtitlan, gan gynnwys:<br>• ardaloedd o'r ddinas<br>• y cyffin sanctaidd. | Dewch i adnabod cynllun y ddinas gan gynnwys y pedair prif sarn, y chinampas a'r cyffin sanctaidd.<br><br>O hyn, ewch ati i ddatblygu dealltwriaeth o arwyddocâd y ddinas. | **Gweithgaredd:**<br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r map a'r wybodaeth a roddwyd i nodi meysydd allweddol ac ychwanegu disgrifiadau o'r meysydd a nodwyd.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall arwyddocâd Tenochtitlan fel dinas drwy archwilio ei chynllun a'i nodweddion pwysig.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Gan ddefnyddio'r wybodaeth allweddol a gasglwyd, gall dysgwyr ystyried pam yr oedd Tenochtitlan mor arwyddocaol i'r Asteciaid ac i'r Sbaenwyr pan wnaethant ymweld am y tro cyntaf.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Mae dysgwyr yn deall arwyddocâd Tenochtitlan i'r Asteciaid ac i'r Sbaenwyr. | **Llyfr(au):**<br>K. Jarvis ac R. Woff, *Aztecs and the Spanish Conquest 15-19-1535* (2022)<br><br>**Gwefan(nau):**<br>The Spanish Conquest of the Americas<br><br>**Map(iau):**<br>The Map: Tenochtitlan, 1524 \| History Today | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 2.3.3 Hernán Cortés | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • rôl Cortés yng nghoncwest yr Asteciaid, gan gynnwys;<br>• cysylltiadau â Velázquez<br>• ymgyrch Cortés i México. | Ymgyrchoedd cynnar Velázquez i Ganolbarth America.<br><br>Y berthynas rhwng Velázquez a Cortés.<br><br>ymgyrch Cortés i México. | **Gweithgareddau:**<br>Adeiladwch ar y llinell amser o'r wers gyntaf/o'r gwersi cyntaf i olrhain symudiadau'r Sbaenwyr yng Nghanolbarth America.<br><br>Datblygwch linell amser arall sy'n olrhain ac yn trafod digwyddiadau allweddol yn y berthynas newidiol rhwng Cortés a Velázquez.<br><br>Gan ddefnyddio mapiau hanesyddol, olrheiniwch daith Cortés o Cuba i Tenochtitlan. Tynnwch sylw at ddigwyddiadau allweddol fel creu cynghreiriaid â phobl Tlaxcala neu frwydrau.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall rhan Velazquez a Cortés yn y concwest o ennill mwy o dir i'r Sbaenwyr.<br><br>Gall dysgwyr ddychmygu ac amlinellu digwyddiadau allweddol ymgyrch Cortés i México.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Cymharwch a chyferbynnwch rolau Cortés a Velázques a lluniwch gasgliad o | **Llyfr(au):**<br>K. Jarvis ac R. Woff, *Aztecs and the Spanish Conquest 15-19-1535* (2022)<br><br>**Gwefan(nau):**<br>The Spanish Conquest of the Americas<br><br>BBC - History - Hernando Cortés<br><br>Biography of Diego Velazquez de Cuellar, Conquistador<br><br>**Fideo(s):**<br>How the Spanish Explored & Colonized the Americas?<br><br>**Map:**<br>Hernan Cortes Explorations Map<br><br>Cortes map Mexico | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • y berthynas â'r Bobloedd Frodorol, gan gynnwys:<br>• rôl Malinche<br>• cynghreiriau ac anghydfodau gyda Phobloedd Frodorol. | Digwyddiadau 1519 a'r cynghreiriau ac anghydfodau â'r Bobloedd Frodorol.<br><br>Rôl Malinche (sydd hefyd yn cael ei galw yn Dona Marina) yn cyfieithu cytundebau rhwng Sbaen a'r Pobloedd Frodorol. | **Gweithgaredd:**<br>Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau. Rhowch wybodaeth am berthnasoedd cadarnhaol i hanner y grwpiau a gwybodaeth am berthnasoedd negyddol i'r hanner arall. Rhowch amser i ddysgwyr gofnodi gwybodaeth allweddol a llunio dadleuon ar 'roedd pob perthynas rhwng Sbaen a'r Bobloedd Frodorol yn niweidiol'. Pan fydd y ddadl drosodd gellir rhoi dysgwyr mewn parau i gyfnewid gwybodaeth.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall y portreadau cadarnhaol a negyddol rhwng Sbaen a'r Bobloedd Frodorol.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Atebwch y cwestiwn canlynol: 'Beth yw arwyddocâd perthynas Sbaen â'r Bobloedd Frodorol?' Yn eich ateb, dylech sôn yn benodol am rôl Malinche.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau ar arwyddocâd perthynas Sbaen â'r Bobloedd Frodorol, yn benodol rôl Malinche. | **Llyfr(au):**<br>K. Jarvis ac R. Woff, *Aztecs and the Spanish Conquest 15-19-1535* (2022)<br><br>**Gwefan(nau):**<br>The Spanish Conquest of the Americas<br><br>The Controversial Role of La Malinche in the Fall of the Aztec Empire: Traitor or Hero? \| Ancient Origins<br><br>La Malinche: The Native Woman Who Helped Cortés Conquer Mexico | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • trechu'r Asteciaid, gan gynnwys:<br>• cwymp Tenochtitlan<br>• sefydlu Ciudad de México. | Sut cwympodd Tenochtitlan.<br><br>Sut newidiodd y Sbaenwyr Tenochtitlan yn Ciudad de México. | **Gweithgaredd:**<br>Dylai dysgwyr lunio map meddwl ynghylch trechu'r Asteciaid gan ddefnyddio'r adnoddau a awgrymwyd.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall y digwyddiadau a arweiniodd at drechu'r Asteciaid.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Defnyddiwch godau lliw ar gyfer y wybodaeth gan ei rhannu'n fethiannau'r Asteciaid a llwyddiannau'r Sbaenwyr.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ymchwilio i'r effaith a gafodd y digwyddiadau hyn ar adeiladu Ymerodraeth Sbaen. | **Llyfr(au):**<br>K. Jarvis ac R. Woff, *Aztecs and the Spanish Conquest 15-19-1535* (2022)<br><br>**Gwefan(nau):**<br>The Spanish Conquest of the Americas<br><br>**Podlediad:**<br>Fall of the Aztec Empire - Dan Snow's History Hit - Podlediadau Apple | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 2.3.5 Effeithiau concwest Sbaen | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • effaith gymdeithasol a diwylliannol y goncwest ar yr Asteciaid, gan gynnwys:<br>• triniaeth Pobloedd Frodorol ac effaith clefydau<br>• newidiadau diwylliannol a gorfodi Cristnogaeth. | Tröedigaeth i Gristnogaeth a rôl y brodyr cardod.<br><br>Trawsnewidiad y boblogaeth a chymdeithas.<br><br>Effaith clefydau 'newydd' ar y Bobloedd Frodorol. | **Gweithgaredd:**<br>Defnyddiwch y wybodaeth o'r adnoddau a awgrymwyd i lunio cyfres o ddiagramau gyda labeli manwl i ddangos y strwythurau newydd o dan y Sbaenwyr, fel tröedigaeth i Gristnogaeth a rôl y brodyr cardod.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall sut newidiodd México o dan y Sbaenwyr.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Lluniwch dabl sy'n dangos y canlyniadau cadarnhaol a negyddol i'r Sbaenwyr.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall effaith gymdeithasol a diwylliannol y goncwest ar Ymerodraeth Sbaen. | **Llyfr(au):**<br>K. Jarvis ac R. Woff, *Aztecs and the Spanish Conquest 15-19-1535* (2022) Tudalennau 84-96<br><br>**Gwefan(nau):**<br>The Spanish Conquest of the Americas<br><br>**Podlediad:**<br>Fall of the Aztec Empire - Dan Snow's History Hit - Podlediadau Apple | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • effaith economaidd a gwleidyddol y goncwest, gan gynnwys:<br>• yr effaith ar yr Asteciaid, fel y system encomienda ac awdurdod brenhinol<br>• yr effaith ar Ewrop, gan gynnwys cynnydd mewn masnach, cyfoeth a chanlyniadau chwyddiant. | System encomienda.<br><br>Awdurdod brenhinol a sefydlu llywodraethwyr y Sbaen newydd.<br><br>Ehangiad y llwybrau masnach. | **Gweithgaredd:**<br>Defnyddiwch y wybodaeth o'r adnoddau a awgrymwyd i lunio cyfres o ddiagramau gyda labeli manwl i ddangos strwythurau newydd cymdeithas, gan gynnwys system encomienda ac awdurdod brenhinol.<br><br>Defnyddiwch y diagramau hyn i archwilio effaith y strwythurau newydd hyn ar yr Asteciaid ac ar Ewrop.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall sut newidiodd México o dan y Sbaenwyr, ac effaith economaidd a gwleidyddol y goncwest ar Ymerodraeth Sbaen.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Hwyluswch ddadl ar b'un a oedd buddiannau cynnydd mewn masnach a chyfoeth yn gwrthbwyso'r effeithiau ar gymdeithasau brodorol.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr feithrin dealltwriaeth | **Llyfr(au):**<br>K. Jarvis ac R. Woff, *Aztecs and the Spanish Conquest 15-19-1535* (2022), tudalennau 84-96<br><br>**Gwefan(nau):**<br>The Spanish Conquest of the Americas<br><br>Encomienda - World History Encyclopedia | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

# Geirfa ar gyfer Opsiwn 2.3

## Modern Cynnar: Concwest Sbaen ar yr Asteciaid tua 1492 – tua 1525

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Conquistador | Sbaenwr oedd yn rhan o Goncwest Sbaen ar México. |
| Cynghrair | Perthynas sy'n cael ei ffurfio er budd y ddwy ochr. |
| Chinampa | Cae ffrwythlon iawn sydd wedi'i greu mewn dyfrffordd. |
| Encomienda | Cytundeb i drefedigaethwr gael llafur ac allbwn cynhyrchu grŵp o Bobloedd Frodorol. |
| Pobloedd Frodorol | Rhywun sy'n wreiddiol o le penodol. Cyfeirir ato weithiau fel cynfrodor neu berson brodorol. |
| Sarn | Ffordd uchel sy'n croesi dŵr. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025